



Llywodraeth Cymru  
Crynodeb o Ymatebion a Chanlyniadau'r  
Ymgynghoriad

Ymgynghoriad ynghylch seilwaith i roi Mynediad i  
Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mawrth 2017  
ISBN: 978-1-4734-9096-3

This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

## **Crynodeb**

Cynhaliwyd Ymgynghoriad ynghylch Seilwaith i roi Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru rhwng 9 Medi 2016 a 9 Hydref 2016. Ar gais, rhoddwyd estyniad tan 04 Tachwedd 2016 ar gyfer tri ymatebydd.

Diben yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn oedd cadarnhau'r ardaloedd hynny lle nad oes seilwaith i roi mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf (NGA) sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf, neu'r ardaloedd hynny lle nad oes unrhyw gynlluniau i greu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn caniatáu i gwmnïau telathrebu, ac unrhyw randdeiliaid eraill oedd â diddordeb, roi sylwadau ar yr ardal ymyrryd NGA arfaethedig cyn ymrwmo i ehangu'r gwasanaeth ymhellach.

## **Cefndir**

Dyfarnwyd contract Cyflymu Cymru i ddarparu band eang cyflym iawn mewn ardal ymyrryd benodol i British Telecommunications (BT) ar 19 Gorffennaf 2012, a chafodd y cwmni £205 miliwn o arian cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol. Yn dilyn ei hymgyngoriad cyhoeddus diweddaraf rhwng 3 Mehefin a 3 Gorffennaf 2014, penderfynodd Llywodraeth Cymru ymestyn contract BT a chynnwys ardal ymyrryd benodol arall gan ddefnyddio £19.4 miliwn o arian cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol.

Mae'r contract â BT yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod yr holl arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio. Yn ogystal â hyn, os bydd y nifer sy'n penderfynu defnyddio gwasanaethau band eang cyflym iawn yn fwy nag a ragwelwyd yn y contract, byddai swm y cymhorthdal cyhoeddus gofynnol yn gostwng i adlewyrchu hyn. Bydd unrhyw gyllid a ryddhawyd ar gael wedyn i'w ail-fuddsoddi mewn cynlluniau i ehangu band eang cyflym iawn ymhellach o dan delerau'r contract.

Ym mis Awst 2015, cyhoeddodd BT fod y nifer a fydd yn defnyddio gwasanaeth band eang cyflym iawn drwy'r DU yn debygol o fod yn fwy na'r hyn a ragwelwyd, sef 20%. Hyd yma, mae BT wedi trosglwyddo hyd at £129 miliwn yn y DU i fodloni'r ymrwymïadau cytundebol uchod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael dyraniad cychwynnol o £12.9 miliwn ac mae'n bwriadu ail-fuddsoddi'r arian i ehangu'r gwasanaeth ymhellach fel rhan o'r contract presennol.

I hwyluso'r broses ail-fuddsoddi hon, cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn i gadarnhau'r ardaloedd hynny lle nad oes seilwaith i roi mynediad i wasanaeth band eang y genhedlaeth nesaf (NGA) sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf, neu'r

ardaloedd hynny lle nad oes unrhyw gynlluniau i greu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf. Disgrifir y rhain fel "ardaloedd NGA Gwyn".

Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd cwmnïau telathrebu ac unrhyw randdeiliaid oedd â diddordeb i roi sylwadau ar yr ardaloedd NGA Gwyn arfaethedig. Byddai'r ymatebion yn helpu Llywodraeth Cymru wrth iddi fynd ati i fuddsoddi yn y dyfodol.

### **Manylion yr Ymgynghoriad**

#### **Hyd:**

Roedd yr ymgynghoriad yn agored rhwng: 9 Medi 2016 a 9 Hydref 2016. Ar gais, rhoddwyd estyniad tan 04/11/2016 ar gyfer tri ymatebydd.

#### **Lleoliad y Wefan:**

<https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/ymgynghoriad-yng-hylch-seilwaith-i-roi-mynediad-i-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-yng>

Gweler Atodiad A i gael copi o'r ohebiaeth hon.

### **Ymatebion**

Cafwyd dau ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad hwn.

**Derbyniwyd:** (13/10/16) 19:05 gan Rory Sherwood-Parkin

**Proffil:** Virgin Media

**Gohebiaeth:** Ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys nifer o godau post lle bo gan Virgin Media wasanaeth band eang neu lle bo Virgin Media yn cynllunio hynny o fewn tair blynedd a nifer o godau post y maent yn ystyried ei bod yn annhebygol iddynt gael eu galluogi o fewn tair blynedd. Er nad oedd y cyflwyniad yn cynnwys tystiolaeth ategol yn unol â'r gofyn, ystyrir bod Virgin Media yn ddarparwr telathrebu cymeradwy o adolygiadau blaenorol o'r farchnad agored, felly cafodd y codau post perthnasol eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK. Noder bod yr ymateb hwn yn destun cytundeb datgelu ac nad yw felly wedi ei gyhoeddi.

**Canlyniad:** Roedd rhestr y codau post â gwasanaeth band eang wedi ei chynnwys yn yr ymgynghoriad.

**Derbyniwyd:** (14/10/16) 15:19 gan Steffan Davies

**Proffil:** ResQ

**Gohebiaeth:** Ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys nifer o godau post cwsmeriaid blaenorol a phresennol sydd â gwasanaeth di-wifr ac sydd felly â'r potensial i gael cysylltiad di-wifr 30 mbps o leiaf yn amodol ar arolwg. Yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru a Broadband Delivery UK, canfuwyd bod y dystiolaeth ategol yn cynnwys bylchau sylweddol. Cyflëwyd hyn i ResQ (21/10/16) gyda chais yn gofyn am gael rhagor o wybodaeth ac estyniad tan (04/11/16) i'w darparu. Ni chafwyd unrhyw ohebiaeth bellach gan ResQ ac felly cafodd y cyflwyniad ei ddiystyru. Noder bod yr ymateb hwn yn destun cymalau

cyfrinachedd busnes ac nad yw felly wedi ei gyhoeddi.  
**Canlyniad:** Cafodd y cyflwyniad ei ddiystyru ac ni chafodd ei gynnwys yn yr ymgynghoriad.

## **Gohebiaeth arall**

Cafwyd yr ohebiaeth ganlynol i'r ymgynghoriad hefyd:

**Derbyniwyd:** (09/09/16) 14:51 gan Walter Willcox

**Proffil:** Y Cyhoedd

**Gohebiaeth:** Rhoddwyd gwybod am broblem gyda'r map rhyngweithiol

**Canlyniad:** Ar ôl ymchwilio, ni ddaethpwyd o hyd i broblem. Darparwyd ymateb (12/09/2016) 15:40

**Derbyniwyd:** (26/09/16) 10:58 gan Clive Downey

**Proffil:** ResQ I.T and Telecoms (Atebion a chymorth telathrebu)

**Gohebiaeth:** Gofynnwyd am esboniad pellach o'r ddogfen ymgynghori

**Canlyniad:** Cafwyd galwad ffôn gan Oliver Jarvis (Llywodraeth Cymru), Clive Downey a Steffan Davies (27/09/16).

**Derbyniwyd:** (07/10/16) 14:08 gan Clive Downey

**Proffil:** ResQ I.T and Telecoms (Atebion a chymorth telathrebu)

**Gohebiaeth:** Gofynnwyd am ddiffiniad o 'band eang sylfaenol' a rhoddwyd estyniad yn sgil hynny (12/10/16) 10:40

**Canlyniad:** Darparwyd diffiniad 12/10/16; rhoddwyd estyniad (12/10/2016) 12:49 tan 17:00 14/10/2016

**Anfonwyd:** (11/10/16) 16:02 at Claire Brown (sefydliad yn anhysbys), Rory Sherwood-Parkin (Virgin Media).

**Gohebiaeth:** Rhoddwyd estyniad i ddarparu sylwadau tan (14/10/16) 17:00

## **Camau Nesaf**

Gan ddefnyddio'r 'Address Base Premium' (Rhyddhad 34) ar gyfer Cymru fel set data sylfaen, cymhwyswyd y setiau data canlynol i gynhyrchu rhestr codau post NGA.

- Codau post yn ymateb Virgin Media i'r ymgynghoriad
- Safleoedd Cyflymu Cymru a brofwyd ac a gadarnhawyd ar 24MBps +
- Data mae Virgin Media yn bwriadu eu cyflwyno gan Broadband Delivery UK.
- Trefniadau wedi'u cynllunio gan BT (Cyflymu Cymru)
- Codau post llwyd a du blaenorol yr Adolygiad o'r Farchnad Agored
- Ardaloedd Canol Dinasoedd dan Waharddiad o Adolygiad o'r Farchnad Agored 2014
- Safleoedd ardal ymyrryd Airband

Lle bo un safle neu fwy o fewn pob cod post eisoes wedi ei wasanaethu neu wedi'i gynllunio i gael ei wasanaethu o fewn y tair blynedd nesaf, roedd yn cael ei ddileu yn unol â'r ymgynghoriad. Roedd gweddill y rhestr yn cynnwys 8,513 o godau post sy'n cyfateb i 58,504 eiddo. Mae'r rhestr hon wedi'i diffinio felly yn rhestr Codau Post Ardaloedd NGA Gwyn.

Cafodd y rhestr hon ei chyflwyno i Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol Broadband Delivery UK (BDUK) a'i chlirio ganddi a bydd bellach yn cael ei defnyddio i gynllunio ailfuddsoddiad yn y dyfodol.

## ATODIAD A – Ymgyrch Bostio

**From:** NGA  
**Sent:** 09 September 2016 10:14  
**To:** NGA  
**Subject:** Next Generation Access Broadband Infrastructure Consultation in Wales - Ymgynghoriad ynghylch Seilwaith i roi Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru

The Welsh Government is aiming to further extend the availability of superfast broadband across Wales.

The purpose of this public consultation is to confirm the areas which do not have Next Generation Access (NGA) broadband infrastructure delivering at least 30Mbps, or where there are no plans to provide such infrastructure over the next three years. These areas are described as “White NGA Areas”.

Telecommunications providers, the public and businesses are invited to comment on the proposed White NGA Areas. The responses received as a result of this Consultation will help inform future Welsh Government policy activity.

The consultation letter, map and associated data can be accessed below.

<https://consultations.gov.wales/consultations/next-generation-access-broadband-infrastructure-wales>

This NGA Consultation runs from 9th September 2016 to 9th October 2016.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu'r gwasanaeth band eang cyflym iawn ymhellach drwy Gymru.

Diben yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn yw cadarnhau'r ardaloedd hynny lle nad oes seilwaith i ddarparu mynediad i wasanaeth band eang y genhedlaeth nesaf (NGA) sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf, neu'r ardaloedd hynny lle nad oes unrhyw gynlluniau i greu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf. Disgrifir yr ardaloedd hyn fel “Ardaloedd NGA Gwyn”.

Gwahoddir cwmnïau telathrebu, y cyhoedd a busnesau i roi sylwadau ar yr Ardaloedd NGA Gwyn arfaethedig. Bydd yr ymatebion a ddaw i law o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn o gymorth i Lywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu polisïau.

Mae modd gweld y llythyr ymgynghori, y map a'r data cysylltiedig isod.

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/ymgyngghoriad-ynghylch-seilwaith-i-roi-mynediad-i-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-yng>

Bydd yr Ymgynghoriad NGA hwn yn dechrau ar 9 Medi 2016 a daw i ben ar 9 Hydref 2016.

**NGA Consultation Team - Tîm Ymgynghori**

Welsh Government - Llywodraeth Cymru

Email - Ebst: [NGA@wales.gsi.gov.uk](mailto:NGA@wales.gsi.gov.uk) / [NGA@cymru.gsi.gov.uk](mailto:NGA@cymru.gsi.gov.uk)